Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Trafnidiaeth (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am y defnydd o drafnidiaeth ac ymddygiadau yn ystod y 12 mis o fis Ebrill 2022 hyd at fis Mawrth 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 11 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 11 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#160220)

**Canfyddiadau allweddol** (https://www.llyw.cymru#160222)

**Defnydd o gar** (https://www.llyw.cymru#160224)

**Boddhad â bysiau a’r defnydd ohonynt** (https://www.llyw.cymru#160226)

**Boddhad â threnau a’r defnydd ohonynt** (https://www.llyw.cymru#160228)

**Dull teithio i’r gwaith** (https://www.llyw.cymru#160230)

**Pellter teithio** (https://www.llyw.cymru#160232)

**Cyd-destun polisi** (https://www.llyw.cymru#160234)

**Gwybodaeth am ansawdd** (https://www.llyw.cymru#160236)

**Manylion cyswllt** (https://www.llyw.cymru#160238)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

Yn 2022-23, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau ar drafnidiaeth. Cafodd cwestiynau eu cynnwys ar y defnydd o gar, boddhad â gwasanaethau bysiau a threnau a phellter teithio i'r gwaith. Mae'r arolwg yn holi pobl 16 oed neu drosodd.

# Canfyddiadau allweddol

- Roedd gan 88% o bobl fynediad at gar. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau o ran oedran, ethnigrwydd, math o aelwyd, iechyd, deiliadaeth, amddifadedd, gweithgarwch economaidd ac ardal.
- Roedd 12% o bobl yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd tua dwy ran o dair o'r bobl a oedd yn defnyddio bws yn fodlon ar wasanaethau bysiau. Ar y cyfan, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn defnyddio bysiau, ychydig dros hanner y bobl oedd yn fodlon ar wasanaethau bysiau.
- Roedd 4% o bobl yn defnyddio trên o leiaf unwaith yr wythnos. Ar y cyfan, roedd 55% o bobl yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar wasanaethau trenau.
- Y ffordd fwyaf cyffredin o fynd i'r gwaith oedd car neu fan, a ddefnyddid gan 75% o'r bobl a oedd mewn gwaith. Roedd 14% yn cerdded i'r gwaith ac roedd 4% o bobl yn beicio i'r gwaith.
- Ar y cyfan, roedd 51% o'r bobl a oedd yn gweithio yn teithio rhwng 3 a 15 milltir i'r gwaith, ac roedd 26% yn rhagor yn teithio mwy na 15 milltir.

# Defnydd o gar

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn gofyn a oedd car neu fan ar gael fel arfer at

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

ddefnydd unrhyw aelod o’r aelwyd. Gallai hyn gynnwys car a rennir â rhywun arall neu gar a ddarperir gan gyflogwr ond sydd hefyd ar gael at ddefnydd preifat. Roedd gan 88% o bobl gar ar gael i’w ddefnyddio. Gan reoli ar gyfer ffactorau eraill (a esbonnir yn ein **Hadroddiad atchweliad technegol** (https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-gwybodaeth-dechnegol)), roedd pob un o’r nodweddion canlynol yn gysylltiedig â’r defnydd o gar.


Pobl rhwng 45 a 64 oed oedd fwyaf tebygol o fod â char ar gael, gan fod gan 93% o’r grŵp oedran hwnnw fynediad at gar. Roedd gan 87% o bobl rhwng 16 a 44 oed ac 85% o bobl 65 oed neu drosodd gar ar gael.

Roedd gwahaniaeth yn ôl ethnigrwydd hefyd, gan fod gan 89% o bobl o gefndir Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig o Ogledd Iwerddon) gar ar gael, o gymharu â 72% o bobl o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol.

Roedd mynediad at gar yn amrywio yn ôl math o aelwyd hefyd, fel y’i gwelir yn Ffigur 1.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Ffigur 1:Canran y bobl â’r defnydd o gar, yn ôl math o aelwyd




Disgrifiad o Ffigur 1: Mae’r siart far hon yn dangos bod pobl ar aelwydydd oedolyn sengl yn llai tebygol o fod â mynediad at gar, a bod gan 67% o bensiynwyr sengl, 69% o oedolion sengl â phlant a 71% o oedolion sengl heb blant fynediad at gar. Roedd cyfraddau mynediad at gar ymhlith yr holl fathau eraill o aelwyd, heblaw “Arall”, uwchlaw 90% o leiaf.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).


Roedd pobl a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn well (pobl mewn iechyd da neu dda iawn) yn fwy tebygol o fod â char ar gael. Roedd gan 91% o bobl mewn iechyd cyffredinol da gar ar gael, tra oedd gan 75% o bobl mewn iechyd cyffredinol gwael (pobl mewn iechyd gwael neu wael iawn) gar ar gael.

Roedd gan 95% o berchen-feddianwyr fynediad at gar, o gymharu â 76% o bobl mewn cartrefi wedi'u rhentu'n breifat a 64% mewn tai cymdeithasol.

Roedd gan 91% o bobl nad oeddent mewn amddifadedd materol gar ar gael, o gymharu â 72% o bobl mewn amddifadedd materol.

O ran pobl mewn gwaith, roedd gan 94% fynediad at gar, o gymharu ag 82% o bobl economaidd anweithgar a 61% o bobl ddi-waith.

## Ffigur 2:Canran y bobl â mynediad at gar, yn ôl rhanbarth




Disgrifiad o Ffigur 2. Mae'r siart far hon yn dangos y gwahaniaethau rhwng rhanbarthau Cymru o ran canran y rhai â mynediad at gar, lle mae gan 93% yn y Canolbarth ac 86% yn y De-ddwyrain fynediad at gar.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Fel y gellid disgwyl, roedd gwahaniaeth hefyd rhwng ardaloedd trefol a gwledig, gan fod gan 94% o bobl mewn ardaloedd gwledig fynediad at gar o gymharu ag 85% mewn ardaloedd trefol.

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol hefyd yn gofyn i bobl a oeddent yn rhoi o'u hamser am ddim (hynny yw, 'gwirfoddoli') i unrhyw glybiau neu sefydliadau. Roedd pobl a oedd yn gwirfoddoli yn fwy tebygol o fod â mynediad at gerbyd. Roedd gan 93% o wirfoddolwyr fynediad at gar neu fan, o gymharu ag 87% o bobl nad ydynt yn wirfoddolwyr.

## Boddhad â bysiau a'r defnydd ohonynt

Wrth ystyried cyfraddau boddhad â bysiau a'r defnydd ohonynt, dylid nodi y gall pobl sy'n byw yng Nghymru deithio am ddim ar fws pan fyddant dros 60 oed.

Roedd 12% o bobl yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos. Fel y gellid disgwyl, mae gwahaniaeth rhwng pobl â mynediad at gar a phobl heb fynediad at gar. Roedd 39% o'r rhai heb fynediad at gar yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu â 9% o'r rhai â mynediad at gar.

Ceir gwahaniaethau rhwng y defnydd o fysiau yn ôl ethnigrwydd hefyd, gyda 23% o bobl o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu â 12% o bobl o gefndir Gwyn.

Ar ben hynny, roedd 24% o bobl ddi-waith ac 17% o bobl economaidd anweithgar yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu ag 8% o bobl mewn gwaith. Mae cysylltiad rhwng y defnydd o fysiau a deiliadaeth hefyd, gyda 26% o bobl mewn tai cymdeithasol yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu ag 16% o bobl mewn cartrefi wedi'u rhentu'n breifat, a 9% o berchen-feddianwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Mae cysylltiad rhwng y defnydd o fysiau a statws priodasol hefyd, gydag 8% o bobl a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos. Mae hyn yn is na’r grwpiau eraill, lle roedd rhwng 16% a 18% yn defnyddio bws mor aml â hyn.

Ceir gwahaniaeth hefyd rhwng ardaloedd trefol a gwledig o ran y defnydd o fysiau, gan fod 9% o bobl mewn ardaloedd gwledig yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos o gymharu ag 14% mewn ardaloedd trefol.

Ceir gwahaniaethau yn ôl rhanbarth ac oedran o ran y defnydd o fysiau hefyd ond, ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill, mae’r cydberthnasoedd yn diflannu, sy’n awgrymu mai ffactorau heblaw oedran person a’r rhanbarth lle mae’n byw sy’n esbonio’r gwahaniaethau. Roedd 9% o bobl rhwng 45 a 64 oed yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos o gymharu ag 14% o bobl 65 oed neu drosodd ac 13% o bobl rhwng 16 a 44 oed. Hefyd, roedd 13% o bobl a oedd yn byw yn y Gogledd-orllewin ac 14% a oedd yn byw yn y De-ddwyrain yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos o gymharu â 7% yn y Canolbarth.

Wrth ystyried cyfraddau boddhad â bysiau, gofynnwyd i’r holl bobl a oeddent yn fodlon ar wasanaethau bysiau, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn defnyddio bysiau.

Roedd tua dwy ran o dair o’r bobl a oedd yn defnyddio bws o leiaf rywfaint o’r amser yn fodlon ar wasanaethau bysiau. Roedd 65% o’r bobl a oedd yn defnyddio’r bws o leiaf unwaith yr wythnos naill ai’n fodlon iawn neu’n weddol fodlon. Roedd pobl a oedd yn defnyddio bws o leiaf unwaith y flwyddyn ond llai nag unwaith yr wythnos yn fodlon mewn 69% o achosion. Roedd pobl nad oeddent yn defnyddio bysiau o gwbl yn llai tebygol o fod yn fodlon arnynt, gyda 38% ohonynt yn fodlon.

Ar y cyfan, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn defnyddio bysiau, roedd 52% o bobl (16+ oed) yn fodlon ar wasanaethau bysiau ac roedd 23% yn anfodlon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Roedd 60% o bobl 65 oed neu drosodd yn fodlon ar wasanaethau bysiau, tra oedd gan bobl rhwng 16 a 44 oed a phobl rhwng 45 a 64 oed gyfraddau boddhad o tua 50%.

Roedd pobl mewn iechyd da (y rhai a ddywedodd fod eu hiechyd yn dda neu’n dda iawn) yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar wasanaethau bysiau, gyda 54% ohonynt yn fodlon. Ar y llaw arall, roedd 43% o bobl mewn iechyd gwael (y rhai a ddywedodd fod eu hiechyd yn wael neu’n wael iawn) yn fodlon.


Roedd pobl a oedd yn economaidd anweithgar hefyd yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar wasanaethau bysiau na phobl ddi-waith, gyda chyfradd o 57% o gymharu â 48%.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Ffigur 3: Canran y bobl a oedd yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar wasanaethau bysiau, yn ôl rhanbarth




Disgrifiad o Ffigur 3: Mae'r siart far hon yn dangos y gwahaniaethau o ran boddhad â gwasanaethau bysiau yn dibynnu ar ble roedd pobl yn byw. Pobl yn y Gogledd-ddwyrain oedd â'r gyfradd boddhad uchaf (58% yn fodlon) ac yn y De-orllewin (47%) a'r Canolbarth (42%) roedd y cyfraddau isaf.


Roedd canran y bobl a oedd yn fodlon ar wasanaethau bysiau yn uwch ymhlith pobl mewn ardaloedd trefol na phobl mewn ardaloedd gwledig, gyda 56% yn fodlon o gymharu â 44%. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hyn yw bod mwy o wasanaethau bysiau ar waith mewn ardaloedd trefol nag ardaloedd gwledig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Ffigur 4: Canran y bobl a oedd yn fodlon iawn neu’n weddol fodlon ar wasanaethau bysiau, yn ôl math o aelwyd




Disgrifiad o Ffigur 4: Mae’r siart far hon yn dangos bod aelwydydd pensiynwyr yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar wasanaethau bysiau, gan fod 58% o gyplau sy’n bensiynwyr a 62% o aelwydydd sengl yn fodlon. Hefyd, roedd aelwydydd â thri oedolyn neu fwy yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar wasanaethau bysiau nag aelwydydd â llai na thri oedolyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Boddhad â threnau a’r defnydd ohonynt

Roedd 4% o bobl yn defnyddio trên o leiaf unwaith yr wythnos.

Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran, gan fod 6% o bobl rhwng 16 a 44 oed yn defnyddio gwasanaethau trenau o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu â 3% o bobl rhwng 45 a 64 oed ac 1% o bobl 65 oed neu drosodd.

Hefyd, roedd 3% o berchen-feddianwyr yn defnyddio gwasanaethau trenau o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu â 6% o bobl mewn cartrefi wedi’u rhentu’n breifat a 5% o bobl mewn tai cymdeithasol.

Oherwydd y niferoedd bach, mae’n anodd ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach sy’n ynysu effeithiau penodol ffactorau penodol (megis oedran, ethnigrwydd ac ati) gan reoli ar gyfer ffactorau eraill hefyd ar yr un pryd.


Ar y cyfan, roedd 55% o bobl yn fodlon iawn neu’n weddol fodlon ar wasanaethau trenau ac roedd 18% yn anfodlon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Ffigur 5: Canran y bobl a oedd yn fodlon iawn neu’n weddol fodlon ar wasanaethau trenau, yn ôl rhanbarth




Disgrifiad o Ffigur 5: Mae’r siart far hon yn dangos y gwahaniaethau rhwng rhanbarthau o ran cyfraddau boddhad â gwasanaethau trenau. Ymhlith pobl a oedd yn byw yn y De-ddwyrain (59%) a’r Gogledd-ddwyrain (57%) roedd y cyfraddau boddhad uchaf, ac yn y Canolbarth (36%) roedd y gyfradd isaf.

Roedd canran y bobl a oedd yn fodlon ar wasanaethau trenau yn uwch mewn ardaloedd trefol (59%) nag ardaloedd gwledig (48%). Mae’n bosibl mai’r rheswm dros hyn yw bod mwy o wasanaethau trenau mewn ardaloedd trefol nag ardaloedd gwledig. O’r bobl sydd â gwasanaethau trenau, roedd 61% o’r rhai mewn ardaloedd trefol yn fodlon o gymharu â 57% mewn ardaloedd gwledig. Yn debyg i’r rhanbarthau, o’r bobl sydd â gwasanaethau trenau, mae’r gwahaniaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

rhwng y cyfraddau boddhad uchaf (y De-ddwyrain a’r Gogledd-ddwyrain) ac isaf (y Canolbarth) yn llai os edrychir ar y bobl a ddywedodd fod gwasanaethau trenau yn eu hardaloedd yn unig, sef 62% o gymharu â 51%.

Gan ystyried yr holl bobl unwaith eto (p’un a oes ganddynt wasanaethau trenau ai peidio), roedd y cyfraddau boddhad yn debyg ar gyfer pobl mewn gwaith a phobl ddi-waith neu economaidd anweithgar, ond ceir gwahaniaeth yn y cyfraddau anfodlonrwydd, h.y. y rhai a oedd yn anfodlon iawn neu’n weddol anfodlon. O’r bobl mewn gwaith, roedd 20% yn anfodlon o gymharu ag 14% o bobl economaidd anweithgar.


Roedd pobl mewn iechyd gwael neu wael iawn yn llai tebygol o fod yn fodlon ar wasanaethau trenau (46%) na phobl mewn iechyd da neu dda iawn (57%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Ffigur 6: Canran y bobl a oedd yn fodlon iawn neu’n weddol fodlon ar wasanaethau trenau, yn ôl math o aelwyd




Disgrifiad o Ffigur 6: Mae’r siart far hon yn dangos bod pobl ar aelwydydd pensiynwyr yn llai tebygol o fod yn fodlon ar wasanaethau trenau, gyda chyfraddau boddhad o tua 50%. Ar y cyfan, roedd aelwydydd â thri oedolyn neu fwy yn fwy tebygol o fod yn fodlon, gyda chyfraddau boddhad o tua 58% neu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

59%.

## Dull teithio i’r gwaith

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn gofyn i bobl am y dulliau arferol o deithio i’r gwaith a oedd yn cael eu defnyddio o leiaf rywfaint o’r amser. Y dull mwyaf cyffredin o deithio i’r gwaith oedd car neu fan, a ddefnyddid gan 75% o’r bobl a oedd mewn gwaith. Roedd 14% o’r bobl a oedd yn gweithio yn cerdded i’r gwaith.

Roedd 4% o bobl yn beicio i’r gwaith, ond roedd y niferoedd yn rhy fach i’w harchwilio yn yr un ffordd â dulliau eraill (h.y. adnabod ffactorau allweddol gan reoli ar gyfer ffactorau eraill).


O’r holl wahanol ddulliau, dim ond ar gyfer pobl a oedd naill ai’n teithio i’r gwaith mewn car neu’n cerdded roedd modd gwneud gwaith dadansoddi pellach (roedd grwpiau a oedd yn defnyddio’r dulliau teithio eraill yn rhy fach i’w dadansoddi ymhellach).

Roedd cysylltiad rhwng teithio mewn car ac oedran, ethnigrwydd, crefydd, statws priodasol a deiliadaeth, gan reoli ar gyfer ffactorau eraill. Roedd cysylltiad rhwng cerdded i’r gwaith ac oedran, ethnigrwydd, crefydd, deiliadaeth a defnyddio’r Gymraeg mewn bywyd beunyddiol, a hynny unwaith eto gan reoli ar gyfer ffactorau eraill. Caiff y canfyddiadau hyn eu harchwilio’n fanylach yng ngweddill yr adran hon.

Roedd 83% o bobl rhwng 45 a 64 oed yn teithio i’r gwaith mewn car o gymharu â 71% o bobl rhwng 16 a 44 oed. Roedd 78% o bobl o ethnigrwydd Gwyn yn teithio i’r gwaith mewn car, o gymharu â 49% o bobl o darddiad Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Ffigur 7: Canran y bobl a oedd yn teithio i’r gwaith mewn car, yn ôl deiliadaeth




Disgrifiad o Ffigur 7: Mae’r siart far hon yn dangos canran y bobl a oedd yn teithio i’r gwaith, yn ôl deiliadaeth. Roedd 82% o berchen-feddianwyr yn teithio i’r gwaith mewn car o gymharu â 61% o bobl mewn cartrefi wedi’u rhentu’n breifat a 57% mewn tai cymdeithasol.


Roedd pobl sengl yn llai tebygol o deithio i’r gwaith mewn car, gyda 67% ohonynt yn gwneud hynny. Ar y llaw arall, roedd 83% o bobl a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn teithio i’r gwaith mewn car.

Ceir gwahaniaethau yn ôl rhanbarth o ran teithio i’r gwaith mewn car. Ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill, mae’r gydberthynas yn diflannu, sy’n awgrymu mai ffactorau heblaw ym mha ranbarth y mae rhywun yn byw sy’n esbonio’r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

gwahaniaethau.

## Ffigur 8: Canran y bobl a oedd yn teithio i’r gwaith mewn car, yn ôl rhanbarth




Disgrifiad o Ffigur 8: Mae’r ffigur hwn yn dangos mai’r De-ddwyrain oedd â’r gyfran isaf o bobl a oedd yn teithio i’r gwaith mewn car, sef 72%, ac mai yn y Gogledd-ddwyrain roedd y gyfran uchaf, sef 81%.

O ran y rhai a oedd yn cerdded i’r gwaith, roedd gwahaniaeth yn ôl oedran. Roedd 15% o bobl rhwng 16 a 44 oed yn cerdded i’r gwaith, o gymharu â 10% o bobl rhwng 45 a 64 oed. Roedd gwahaniaeth amlwg yn ôl ethnigrwydd hefyd, gan fod gan 12% o bobl o gefndir Gwyn yn cerdded i’r gwaith, o gymharu â 26% o’r rhai o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Yn yr un modd â theithio mewn car, roedd cysylltiad rhwng deiliadaeth a cherdded i'r gwaith hefyd (gweler Ffigur 9).

## Ffigur 9: Canran y bobl a oedd yn cerdded i'r gwaith, yn ôl deiliadaeth




Disgrifiad o Ffigur 9: Mae'r ffigur hwn yn dangos bod 9% o berchen-feddianwyr yn cerdded i'r gwaith o gymharu â 21% o bobl mewn tai cymdeithasol a 24% o bobl mewn cartrefi wedi'u rhentu'n breifat.

Roedd pobl a ddwedodd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd beunyddiol yn llai tebygol o gerdded i'r gwaith, gan mai 7% o'r bobl hyn a oedd yn cerdded i'r gwaith o gymharu ag 14% o'r bobl a ddywedodd nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg. Mae'n bosibl iawn bod hyn yn gysylltiedig â'r ardaloedd lle y caiff y Gymraeg ei siarad yn rheolaidd, ond nid oedd cysylltiad i'w weld rhwng


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

hyn a natur wledig a rhanbarth. Fodd bynnag, roedd 15% o bobl mewn ardaloedd trefol yn cerdded i'r gwaith, o gymharu â 9% mewn ardaloedd gwledig. Yn ôl rhanbarth, roedd 10% o bobl yn cerdded i'r gwaith yn y Gogledd-orllewin, sef y ganran isaf, o gymharu ag 16% yn y Gogledd-ddwyrain, sef y ganran uchaf.

## Pellter teithio

Ar y cyfan, roedd 51% o'r bobl a oedd yn gweithio (heb gynnwys pobl a oedd yn gweithio gartref) yn teithio rhwng 3 a 15 milltir i'r gwaith, ac roedd 26% yn rhagor yn teithio mwy na 15 milltir.


Y ffactorau a oedd yn dangos gwahaniaethau sylweddol oedd rhyw, statws priodasol, iechyd, deiliadaeth, rhanbarth a ph'un ai mewn lleoliad trefol neu wledig roedd rhywun yn byw. Ni welwyd bod cysylltiad rhwng boddhad â bywyd a phellter teithio, ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill. Roedd gwahaniaeth yn ôl rhyw, gyda 32% o ddynion yn teithio mwy na 15 milltir o gymharu â 22% o fenywod.

Hefyd, roedd perchen-feddianwyr yn teithio ymhellach i'r gwaith, gydag 81% ohonynt yn teithio mwy na 3 milltir. Roedd hyn o gymharu â 70% ar gyfer rhentwyr preifat a 64% ar gyfer pobl mewn tai cymdeithasol.

Hefyd, nid oedd yn syndod, fwy na thebyg, fod pobl mewn ardaloedd gwledig yn teithio ymhellach, gyda 32% yn teithio mwy na 15 milltir, o gymharu â 24% mewn ardaloedd trefol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Ffigur 10: Canran y bobl a oedd yn teithio pellteroedd hir i’r gwaith yn ôl rhanbarth




Disgrifiad o Ffigur 10: Mae’r siart far hon yn dangos canran y bobl a oedd yn teithio ymhell i’r gwaith yn ôl rhanbarth. Pobl yn y Gogledd-ddwyrain (58%) a’r Gogledd-orllewin (54%) oedd fwyaf tebygol o deithio rhwng 3 a 15 milltir i’r gwaith, a phobl yn y Canolbarth oedd y rhai lleiaf tebygol (40%). Fodd bynnag, pobl yn y Canolbarth oedd fwyaf tebygol o deithio’r pellteroedd hiraf, sef mwy na 15 milltir (32%) a phobl yn y Gogledd-ddwyrain oedd y rhai lleiaf tebygol (21%).

Er nad oeddent yn sylweddol, roedd rhai gwahaniaethau gwerth eu nodi hefyd.

Roedd pobl o darddiad ethnig Gwyn yn debygol o deithio ymhellach i’r gwaith, gyda 77% yn teithio mwy na 3 milltir, a 70% o bobl o darddiad Du, Asiaidd neu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Ethnig Leiafrifol oedd yn teithio'r pellter hwnnw.

Roedd pobl a oedd mewn amddifadedd materol yn llai tebygol o deithio mwy na 15 milltir, gyda 21% ohonynt yn teithio mwy na 15 milltir o gymharu â 27% o'r bobl nad oeddent mewn amddifadedd materol.

## Cyd-destun polisi

Mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru ym maes trafnidiaeth a seilwaith digidol wedi'u dylunio i newid y ffordd y mae pobl yn teithio, gan hyrwyddo dulliau teithio mwy ecogyfeillgar mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur.

Newid dulliau teithio a lleihau carbon yw'r nodau a'r targedau craidd yn **Llwybr Newydd –** (https://www.llyw.cymru/node/38139)**Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** (https://www.llyw.cymru/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021). Nod y Strategaeth, a lansiwyd ym mis Mawrth 2021, yw llywio'r system drafnidiaeth yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Y bwriad yw bod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn blaenoriaethu pobl a lleihau'r effeithiau ar yr hinsawdd wrth wneud penderfyniadau polisi ynglŷn â'r system drafnidiaeth.

## Gwybodaeth am ansawdd

Arolwg hapsampl parhaus ar raddfa fawr o bobl ledled Cymru oedd **Arolwg Cenedlaethol Cymru** (https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-gwybodaeth-dechnegol) 2022-23. Cafodd cyfeiriadau pobl eu dewis ar hap, a chafodd gwahoddiadau eu hanfon drwy'r post, yn gofyn i bobl roi rhif ffôn ar gyfer y cyfeiriad. Roedd modd rhoi'r rhif ffôn drwy borth ar-lein, dros y ffôn drwy linell ymholiadau, neu'n uniongyrchol i rif ffôn symudol y cyfwelydd ar gyfer yr achos hwnnw. Pe na bai rhif ffôn yn cael ei roi, gallai'r cyfwelydd alw yn y cyfeiriad a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

gofyn am rif ffôn.Ar ôl i rif ffôn gael ei roi, byddai’r cyfwelydd yn defnyddio dull dethol ar hap i ddewis un oedolyn yn y cyfeiriad i gymryd rhan yn yr arolwg. Cafodd adran gyntaf yr arolwg ei chwblhau drwy gyfweliad dros y ffôn; cafodd yr ail adran ei chwblhau ar-lein (pe bai’r ymatebydd yn anfodlon neu’n methu ei chwblhau ar-lein, byddai modd gofyn y cwestiynau hyn dros y ffôn hefyd).

Mae siartiau a thablau manwl o’r canlyniadau i’w gweld yn ein **dangosydd canlyniadau** (https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau) rhyngweithiol. I gael gwybodaeth am gasglu data a methodoleg, gweler ein **Hadroddiad ansawdd** (https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-gwybodaeth-dechnegol) a’n **Hadroddiad technegol** (https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-gwybodaeth-dechnegol).

## Statws ystadegau swyddogol

Dylai’r holl ystadegau swyddogol ddangos safonau’r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau (Awdurdod Ystadegau'r DU)** (https://code.statisticsauthority.gov.uk/).

Mae’r rhain yn ystadegau swyddogol achrededig. Cafodd eu hadolygu'n annibynnol gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ym mis Mehefin 2020. Maent yn cydymffurfio â'r safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir fel rhan o'r achrediad. **Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r OSR yn brydlon.** (https://www.llyw.cymrunull)Gellir dileu neu atal achrediad ar unrhyw adeg pan na fydd y safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir ei adennill pan fydd y safonau yn cael eu hadfer.

Gelwir **ystadegau swyddogol achrededig (OSR)** (https://osr.statisticsauthority.gov.uk/accredited-official-statistics/) yn Ystadegau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Gwladol yn Neddf 2007.

## Datganiad o gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Mae ein hymarfer ystadegol yn cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n gosod y safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai pob cynhyrchydd ystadegau swyddogol gydymffurfio â nhw.

Mae ein holl ystadegau yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Natganiad Cydymffurfiaeth** (https://www.llyw.cymru/ynghylch-ystadegau-ac-ymchwil#Datganiadcydymffurfiaeth) Llywodraeth Cymru.

Mae'r **ystadegau swyddogol achrededig (OSR)** (https://osr.statisticsauthority.gov.uk/policies/official-statistics-policies/accredited-official-statistics-policy/) hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

Mae croeso ichi gysylltu â ni yn uniongyrchol os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch sut rydym yn bodloni'r safonau hyn. Fel arall, gallwch gysylltu â'r OSR drwy e-bostio **regulation@statistics.gov.uk** (https://www.llyw.cymrumailto:regulation@statistics.gov.uk) neu drwy fynd i'w gwefan.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru** (https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru).

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Ian Shipley
E-bost: **arolygon@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:surveys@gov.wales)

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

SB 39/2024

Achrededig

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).